Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion Public Services Board

# CYNLLUN LLESIANT LLEOL Y BGC
# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024-2025



## RHAGAIR

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion wedi ymrwymo i gynnwys pawb ar draws pob cymuned, oherwydd po fwyaf y bydd pobl Ceredigion yn helpu i siapio ein cynlluniau, y mwyaf o effaith bositif y caiff hynny ar lesiant pawb.

Gan weithio mewn partneriaeth er budd pawb, mae'r BGC yn parhau i wneud pob ymdrech i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd yn ein Cynllun Llesiant Lleol 2023-28. Darperir trosolwg o'n blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn ystod 2024/25 yn yr adroddiad hwn a gallwch ddilyn ein cynnydd yn ystod y flwyddyn drwy ddarllen yr adroddiadau a gyflwynir i'r BGC yn ein cyfarfodydd, sydd ar gael ar y ddolen hon Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion – Cyngor Sir Ceredigion

Os hoffech chi gael unrhyw wybodaeth bellach neu os oes gennych chi gwestiynau, mae nifer o ffyrdd o gysylltu â ni:

**E-bost:** partnerships@ceredigion.gov.uk

**Post**: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, d/o Cyngor Sir Ceredigion, Neuadd y Sir, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA

**Ffôn**: 01545 570881

# CYNNWYS

1. **BGC Ceredigion**
   - Aelodaeth
   - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
   - Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion (Crynodeb)
   - Cynllun Llesiant  Lleol Ceredigion 2023-28

2. **Strwythur Cyflawni 2024-2025.**
   - Diagram Hierarchaidd

3. **Trosolwg o Weithgarwch y Grwpiau Cyflawni**
   - Grŵp Tlodi
   - Grwp Cyflawni Llesiant Aberteifi
   - Grŵp Cyflawni Llesiant Llanbed
   - Grŵp Hinsawdd a Natur Ceredigion

   Is-grwpiau a Fforymau Cyfranogol
   - Partneriaeth Diogelwch Cymunedol
   - Grŵp Adsefydlu Ffoaduriaid
   - Fforwm Darparwyr Plant a Phobl Ifanc
   - Fforwm Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog
   - Fforwm Dyfodol Dwyieithog

4. **Craffu ac Adolygu**.
   - Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
   - Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

5. **Sesiynau Sbotolau**
   - Hinsawdd a Natur
     - Ymgyrch Ras i Sero
     - Siarter Teithio Canolbarth a Gorllewin Cymru
     - Asesiad Risg Newid Hinsawdd
   - Trafnidiaeth
   - Gwaith Teg
   - Ffyrdd o Weithio

6. **Mentrau**
   - Partneriaeth Bwyd Lleol Ceredigion
   - Partneriaeth Natur Leol Ceredigion
   - Haf Hwyl Ceredigion
   - Dull Systemau Cyfan at Bwysau Iach Cymru
   - Lansiad Strategaeth Oed-gyfeillgar

7. **Digwyddiadau a Chodi Ymwybyddiaeth**

8. **Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu - Diweddaria**

# 1. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Ceredigion yn cynnwys aelod-sefydliadau statudol a sefydliadau a wahoddwyd i gymryd rhan o bob cwr o'r sir. Wedi'i sefydlu yn 2016, nod y BGC yw dod ag arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus lleol ynghyd i asesu a mynd i'r afael ag anghenion llesiant Ceredigion.


## Aelodaeth

Mae'r Aelodau Statudol, ynghyd â'r Sefydliadau a Wahoddwyd i gymryd rhan yng Ngheredigion i'w gweld isod:

| | |
|---|---|
| **Aelodau Statudol** | |
| Cyngor Sir Ceredigion | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth Cymru |
| | |
| **Aelodau a Wahoddwyd** | |
| Llywodraeth Cymru | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion |
| Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys | Heddlu Dyfed Powys |
| Gwasanaeth Prawf Dyfed Powys | Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | Adran Gwaith a Phensiynau |
| Prifysgol Aberystwyth | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Coleg Ceredigion | Llyfrgell Genedlaethol Cymru |
| Un Llais Cymru | |

Prif dasgau'r BGC yw:

- Paratoi a chyhoeddi asesiad o'r sefyllfa sydd ohoni yng Ngheredigion o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol
- Paratoi a chyhoeddi Cynllun Llesiant Lleol ar gyfer Ceredigion a fydd yn pennu'r amcanion lleol a'r camau y bwriedir eu cymryd i'w cyflawni
- Cymryd yr holl gamau rhesymol i gyflawni'r amcanion lleol a bennwyd
- Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol a fydd yn nodi'r cynnydd a wnaeth y Bwrdd tuag at gyflawni'r amcanion lleol



## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015


Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod fframwaith cyfreithiol cyffredin ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Lleol sy'n cynnwys saith o nodau Llesiant a phum ffordd o weithio. Gosodir manylion y rhain isod ac maent wedi'u cynllunio'n benodol i gefnogi a chyflenwi gwasanaeth cyhoeddus sy'n bodloni anghenion y presennol heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion nhw.

**Nodau llesiant**

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

**5 ffordd o weithio (Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy)**

- Cydweithio
- Integreiddio
- Cynnwys
- Hirdymor
- Atal




## Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion (Crynodeb)

Mae'r BGC yn gyfrifol am baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant yng Ngheredigion, sydd yn ei dro'n sylfaen i Gynllun Llesiant Lleol Ceredigion. Mae'r diagram uchod yn darlunio'r broses gylchol hon.

Ceir manylion pellach am Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion (2022) yma Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion 2022

## Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28

Ar sail ymgynghoriadau, digwyddiadau ymgysylltu a'r data sydd yn yr Asesiad o Lesiant Lleol (2022), bu'r BGC yn gwrando ar drigolion y sir i lunio ei Gynllun Llesiant Lleol am y cyfnod 2023-28. Cafodd y cynllun hwn ei gynhyrchu ar y cyd gan bartneriaid, gan amlinellu'r amcanion llesiant y cytunwyd arnynt am y pum mlynedd nesaf. Ceir manylion pellach am y cynllun, a gyhoeddwyd ym Mai 2023, yma Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion-2023-28.pdf.

Dyma'r ail Gynllun a gynhyrchwyd gan BGC Ceredigion a dan bedair colofn, mae'n gosod nifer o Amcanion Llesiant, y bydd y Bwrdd yn cymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni. Dyma'r Amcanion Llesiant ar gyfer y pum mlynedd nesaf:

| |
|---|
| **Llesiant Economaidd**: Bydd y BGC yn gweithio ar y cyd i sicrhau economi gynaliadwy sydd o fudd i bobl leol ac sy'n adeiladu ar gryfderau Ceredigion. |
| **Llesiant Cymdeithasol**: Bydd y BGC yn gweithio ar y cyd i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau ac yn defnyddio datrysiadau cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol. |
| **Llesiant Amgylcheddol**: Bydd y BGC yn gweithio ar y cyd i ddarparu mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol. |
| **Llesiant Diwylliannol**: Bydd y BGC yn gweithio ar y cyd i alluogi cymunedau i deimlo'n ddiogel ac yn gysylltiedig a bydd yn hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol ac yn cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. |

Yn ogystal â'r pedwar amcan uchod, tanlinellwyd **Mynd i'r Afael â Chaledi a Thlodi** fel thema drawsbynciol, sy'n darparu ffocws penodol ac yn cysylltu â phob un o'r Amcanion.

Yn ddiweddar, drwy weithdai rhyngweithiol, rydym wedi cytuno ar ein blaenoriaethau tymor byr ac wedi amlinellu beth fyddwn ni'n ei wneud ar y cyd i gyflawni'r Amcanion hyn. **Gweler Ffigur 1.**

## AMCAN 1
**2024/26**
**Llesiant Economaidd**

Bydd sefydliadau'n ymrwymo i feddylfryd gwaith gweddus, yn rhoi gwaith teg wrth wraidd polisïau a chynlluniau, ac yn esiamplau o waith teg yng Ngheredigion.

Drwy gaffael, bydd sefydliadau'r BGC yn gwneud y defnydd mwyaf o gyflenwyr lleol ar gyfer eu nwyddau, eu gwasanaethau a'u gwaith.

Byddwn yn gweithio ar y cyd gan gynnwys y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i gynyddu sgiliau trigolion Ceredigion i ddiwallu anghenion lleol.

Bydd y BGC yn gwneud cysylltiadau clir â Bargen Twf Canolbarth Cymru a'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar draws ystod o feysydd ac yn datblygu ffyrdd newydd o fesur llwyddiant economaidd.

## AMCAN 2
**2024/26**
**Llesiant Cymdeithasol**

Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ceisio cryfhau gwaith Rhaglen Ddigidol Tyfu Canolbarth Cymru er mwyn sicrhau dull cyd-gysylltiedig o wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i wella'r seilwaith digidol a'r cysylltedd.

Gweithio gyda chymunedau sydd eisiau rheoli a gwella eu hamgylchedd lleol a'u cefnogi. Grymuso pawb, gan gynnwys pobl ifanc, i wella mannau cymunedol a chael mynediad at fannau gwyrdd gan weithio mewn ffordd sy'n pontio'r cenedlaethau i greu cyfleoedd gweithredu cymdeithasol a fydd yn arwain at effaith gymunedol wirioneddol i wella mannau cymunedol.

Bydd cyrff cyhoeddus, drwy waith y BGC, yn canolbwyntio ar gyflawni gweithgareddau ataliol sylfaenol ac eilaidd sy'n mynd i'r afael ag Iechyd a Llesiant ac yn cydweithio i wneud hynny.

## AMCAN 3
**2024/26**
**Llesiant Amgylcheddol**

Ceisio amddiffyn a gwella iechyd a chydnerthedd ein hecosystemau er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng natur.

Manteisio i'r eithaf ar y cyfle i uwchsgilio ac ailhyfforddi ar gyfer adferiad gwyrdd.

Gweithio gyda darparwyr tai a rhanddeiliaid eraill i sicrhau tai o ansawdd da, sy'n effeithlon o ran ynni ac sy'n briodol i bawb.

## AMCAN 4
**2024/26**
**Llesiant Diwylliannol**


Bydd y BGC yn cefnogi'r strategaeth ddiwylliannol a fydd yn cynnwys partneriaid ledled y sir.

Gweithio mewn partneriaeth i ddangos ymrwymiad clir i gefnogi ac ymgorffori nodau ac amcanion Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol: Cymru Gwrth-Hiliol.

Cafodd Cadeiryddion yr holl Grwpiau Cyflawni eu briffio ar y blaenoriaethau a gytunwyd, gyda'r disgwyliad y byddai sylw arbennig yn cael ei roi i'r meysydd hyn wrth ystyried gweithgareddau eu grwpiau cyflawni. Rhoddir diweddariadau ar y meysydd blaenoriaeth hyn fel rhan o adroddiadau chwarterol y Grwpiau Cyflawni i'r Bwrdd, a chânt eu monitro gan system Olrhain Gweithgaredd Cynlluniau Gweithredu'r BGC.

## 2. Strwythur Cyflawni 2024-2025

Mae BGC Ceredigion wedi trefnu'r modd y cyflawnir Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28 ar ffurf strwythur hierarchaidd fel y dangosir isod yn **Ffigur 2**




**Ffig.2**

Mae pob Grŵp Cyflawni'n cael ei Gadeirio gan aelod o'r BGC, sy'n cynrychioli sefydliadau gwahanol. Mae aelodaeth pob un o'r grwpiau cyflawni yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau cyhoeddus a thrydydd sector, yn ogystal ag unigolion sydd â diddordeb neu set sgiliau penodol i helpu i gyflawni.

Mae'r Is-grŵp Tlodi yn darparu'r modd o ddelio â'r thema drawsbynciol hanfodol o Fynd i'r Afael â Chaledi a Thlodi, ac mae ei flaenoriaethau a'i weithredoedd yn cyfrannu at amcanion cyffredinol Cynllun Llesiant Lleol 2023-28. Mae manylion pellach am y cynnydd a wnaed gyda'r gwaith hwn yn ystod y cyfnod 2024-25 i'w gweld isod.

Yn ogystal â'r diweddariad hwn ac yn seiliedig ar ddata a grynhowyd fel rhan o'r Asesiad o Lesiant Lleol (2022), cytunwyd y dylid mabwysiadu model 'seiliedig ar le' yn y lle cyntaf, ar gyfer trefi marchnad Llanbed a Chaerfyrddin, gyda'r nod o nodi enghreifftiau o arfer da a rhannu'r dystiolaeth a'r dysgu ar draws ardaloedd eraill o Geredigion. Yn unol a thystiolaeth y Cyfrifiad (2022), cadarnhaodd adroddiadau sylfaenol unigol ar gyfer y ddwy ardal yr angen am weithredu penodol. Amlygodd yr ystadegau allweddol arwyddion difrifol o amddifadedd, a thanlinellodd hynny yr angen am ymyriadau cymunedol positif. Y nod gyda'r ymyriadau hyn oedd gwneud y mwyaf o gryfderau'r ddwy ardal, gan geisio eu darparu ag amrywiaeth o adnoddau all annog datblygiad positif yn y dyfodol. Mae manylion pellach am y cynnydd a wnaed gyda'r gwaith hwn yn ystod y cyfnod 2024-25 i'w gweld isod.

O ystyried rhychwant eang y gweithgaredd o fewn Hinsawdd a Natur, mabwysiadwyd dull mwy thematig o fynd i'r afael â'r materion hyn, ac mae manylion y cynnydd a wnaed gyda'r gwaith hwn yn ystod y cyfnod 2024-25 i'w gweld isod hefyd.

# 3. Trosolwg o Weithgaredd Grwpiau Cyflawni

## Grŵp Tlodi

Mae is-grŵp Tlodi y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sicrhau bod tlodi yn cael sylw fel thema drawsbynciol ar draws Cynllun Llesiant y BGC. Mae'r grŵp yn dod â phartneriaid perthnasol ynghyd o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector addysg, gan gynnwys:

- Aelodau BGC Ceredigion
- Sefydliadau Trydydd Sector
- Sefydliadau Tai

Mae ein cynllun gwaith ar gyfer y dyfodol yn canolbwyntio ar ddau amcan allweddol:

1. **Lleihau costau a gwneud y gorau o incwm**

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Ddarparu cyngor hygyrch, ar-lein ac wyneb yn wyneb
- Cynnal ymgyrchoedd penodol ar fesurau i arbed costau a chynyddu incwm

## 2. Cynyddu dealltwriaeth o dlodi lleol a mynd i'r afael â'r stigma

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- Barhau i ddatblygu a rhannu data ac ystadegau'n ymwneud â thlodi
- Cynyddu ymwybyddiaeth o brofiad bywyd ac effaith tlodi yng Ngheredigion

## Beth wnaethon ni eleni i leihau costau a gwneud y gorau o incwm

Mi wnaethon ni gyhoeddi 13 o fwletinau ar themâu gwahanol eleni, er enghraifft: Teithio a Thrafnidiaeth, Gwneud y Gorau o Incwm, Bwyd, Biliau Cartref a Biliau Ynni

Caiff y bwletinau hyn eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol a'u dosbarthu i:

- Aelodau is-grŵp Tlodi y BGC
- Cynghorwyr Sir Ceredigion
- Clercod Cynghorau Tref a Chymuned
- Rhestr bostio bwrpasol

Cafwyd adborth positif, gyda sylwadau fel,

> *"Grêt cael y diweddaraf am y materion hyn yn rheolaidd ar gyfer ni'n hunain, ond hefyd i helpu'r rhai ry'n ni'n gweithio â nhw".*
>
> *"Ro'n i'n arbennig o hoff o'r adroddiad ar Dyfu Cymunedol."*
>
> *"Grêt gweld adnodd fel hwn pan mae costau byw yn effeithio ar gymaint o deuluoedd."*

Ar ran y BGC, mae Cyngor Sir Ceredigion yn rhedeg gwe-dudalen unigol ar gyfer pobl sy'n chwilio am help. Mae hon yn cael ei diweddaru'n rheolaidd. Eleni, er enghraifft, mi wnaethon ni ychwanegu gwybodaeth am wasanaethau cynghori Severn Wye, ac am hawlio iawndal ar ôl Storm Darragh yn Rhagfyr 2024.

Mi wnaethon ni gynnal cyflwyniadau a thrafodaethau ar gymorth gyda chaledi ar gyfer tenantiaid Barcud, gwasanaeth cymorth a chyngor CAB Ceredigion, cymorth Hope4U, Credydau Pensiwn, tlodi gwledig, a chynllun Bwndel Babi Plant Dewi.

## Beth wnaethon ni eleni i gynyddu dealltwriaeth o dlodi lleol a mynd i'r afael â stigma tlodi

Mae ein holl gyfarfodydd yn cynnwys cyflwyniad ar ddata a thueddiadau sy'n gysylltiedig â thlodi, gyda chymorth ein dangosfwrdd data Mynd i'r Afael â Chaledi.

Mi wnaethon ni gwblhau **prosiect Cysylltu Cymunedau.** Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i arwain gan y Cyngor, roedd y prosiect hwn yn cyflogi swyddog dynodedig i ymgysylltu â grwpiau bwyd lleol a Mannau Croeso Cynnes, i feithrin cyd-ddealltwriaeth o faterion lleol rhwng sefydliadau lleol a'r BGC.

Mi wnaethon ni hefyd sefydlu grŵp gorchwyl a gorffenn amlasiantaeth i ddatblygu siarter Gwaith Teg, i'w chyflwyno i'r BGC ym Mai 2025. Mi fydd hyn yn annog aelodau'r BGC i ymrwymo i arferion Gwaith Teg.

Bu'r grŵp yn mynegi pryderon am y cynnydd posib mewn tlodi tanwydd yn sgil polisïau datgarboneiddio newydd. Bydd y pryderon hyn yn cael eu pasio 'mlaen gan Gadeirydd y BGC i'r fforymau perthnasol.

Mae aelod o is-grŵp Tlodi y BGC yn mynychu grwpiau gweithredu eraill y Cynllun Llesiant Lleol i sicrhau bod dull gwybodus am dlodi yn rhan annatod o holl ffrydiau gwaith y BGC.

### *Thema sylfaenol – Mynd i'r Afael â Chaledi a Thlodi*

**Camau gweithredu allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod**

Byddwn yn dyfnhau ein dealltwriaeth o brofiadau trigolion sy'n byw gyda thlodi fel bod gwasaaethau'n fwy hygyrch ac yn ymateb yn well.

Byddwn yn annog aelodau'r BGC i fabwysiadu Siarter Gwaith Teg Ceredigion a monitro cynnydd drwy adroddiad blynyddol y BGC.

Byddwn yn cefnogi'r broses o gyflwyno porth CIAN (Rhwydwaith Gwybodaeth a Chyngor Ceredigion) CAB Ceredigion ac yn annog grwpiau lleol a chenedlaethol i ddod yn bartneriaid cyfeirio.

Byddwn yn parhau i wella'r dangosfwrdd Mynd i'r Afael â Chaledi ac yn sicrhau ei fod ar gael i holl aelodau is-grŵp Tlodi y BGC.

## Llesiant Aberteifi

Mae blaenoriaethau'r grŵp cyflawni hwn yn dod dan yr amcanion canlynol o fewn Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2023-28.

**Amcan 2: Cydweithio i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau a defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol.**

Mae gwaith grŵp cyflawni Llesiant Aberteifi yn canolbwyntio ar sicrhau newidiadau o fewn cymunedau ac mae'n seiliedig ar yr egwyddor o greu

amgylchedd partneriaeth effeithiol lle gall pobl gydweithio a helpu'i gilydd, a hynny er mwyn gallu cynnig cymorth a chamau atal, yn y gobaith y bydd hynny, yn ei dro, yn gwella llesiant trigolion yr ardal.

Mae Cylch Gorchwyl y grŵp cyflawni hwn wedi'i adolygu, ac mae'r aelodaeth wedi'i gryfhau i gefnogi'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer 2024-26.

Dan Gadeiryddiaeth Hazel Lloyd Lubran, Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO), mae'r grŵp wedi canolbwyntio ei ymdrechion ar ddefnyddio dull partneriaeth o fewn cymunedau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chaledi.

Cafodd asesiad sylfaenol o Aberteifi ei adolygu yn 2023, ac mae hwnnw wedi cadarnhau bod yr ardal yn parhau i ddioddef o amddifadedd.  Mae canfyddiadau allweddol y Cyfrifiad (2021) i'w gweld yma Penawdau Cyfrifiad Aberteifi 2021Mewn ymateb i'r lefelau uwch o anghydraddoldeb sy'n bodoli yn nhermau incwm, cyflogaeth, diogelwch ac iechyd cymunedol, mae partneriaid grŵp cyflawni Llesiant Aberteifi y BGC wedi mynd ati i gydweithio ar y blaenoriaethau canlynol:

- **Mapio** asedau ac adnoddau.
- **Ymchwilio** a chasglu adroddiadau a strategaethau ymgynghori, ac adolygu unrhyw argymhellion a chamau gweithredu a nodir.
- **Buddsoddi** drwy ddod ag unrhyw gyllid sydd ar gael i geisio fynd i'r afael â chaledi at ei gilydd.
- **Targedu** y ddarpariaeth drwy sefydlu rhaglen allgymorth i wneud hi'n haws i drigolion Aberteifi gael mynediad at gymorth a chyngor.
- **Cysylltu** drwy weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i hyrwyddo a chynyddu cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau i wella eu canlyniadau eu hunain a chanlyniadau eraill.
- **Monitro** y set ddata ar gyfer Aberteifi.

Mae enghreifftiau o gamau gweithredu a gymerwyd gan bartneriaid yn ystod 2024-25 wedi canolbwyntio ar:

- nodi hyrwyddwyr cymorth allweddol o fewn y gymuned
- cynyddu gallu ac annog mwy o wirfoddolwyr i weithredu
- nodi a chyfeirio pobl at wasanaethau cymorth
- cymryd rhan mewn ymgynghoriadau lleol
- rhannu arfer gorau a chreu a darparu amgylchedd partneriaeth ar gyfer rhwydweithio a chydweithio

Mae partneriaid wedi rhannu gwybodaeth am eu blaenoriaethau unigol ac wedi cyd-drafod y broses o nodi bylchau posib yn y ddarpariaeth.  Maent wedi nodi cryfder y cydweithio, ac mae eu dulliau rhagweithiol wedi arwain yn y pen draw at sefydlu partneriaethau newydd.  Maent wedi mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio ac wedi mynd ati i chwilio am atebion blaengar o fewn y gymuned.

Mae'r cydweithio a wnaed ar y Dull Systemau Cyfan at Bwysau Iach yn tystio i hyn yn arbennig. Gweler tudalen 35.

Enghraifft arall o'r gwaith a wnaed gan y grŵp cyflawni hwn yw'r rhaglen digwyddiadau ar y cyd a ddatblygwyd gan bartneriaid dan y faner 'Haf Hwyl'. Gweler tudalen 33.

### Mae'r Camau Allweddol a nodwyd ar gyfer y cyfnod sydd i ddod yn cynnwys:

- Cynyddu'r rhan a gymerir gan ddarparwyr gwasanaethau ychwanegol, gan gysylltu partneriaid a rhwydweithiau o fewn y dref farchnad, a mabwysiadu dull a fydd yn sicrhau'r cydweithio a'r dyrannu adnoddau gorau posib.
- Gwella cyfleoedd ar gyfer mentrau addysg a datblygu sgiliau lleol er budd teuluoedd a phobl ifanc.
- Parhau i ymgysylltu ar y posibilrwydd o sefydlu canolfan les leol, integredig yn y dref.
- Gwella cyfleusterau awyr agored a chynyddu'r defnydd o fannau gwyrdd ar gyfer hamdden, iechyd, a lles yn y dref.
- Parhau i gymryd rhan yng gwaith Pwysau Iach, Cymru Iach, gan ganolbwyntio ar "Mynediad at Fwyd" a sefydlu rhwydwaith dysgu.
- Annog pobl i wirfoddoli, hyrwyddo ffyrdd o fyw iachach, a gwella mynediad at gynnyrch bwyd a gwasanaethau lleol.

Bydd elfen allweddol arall o'r gwaith dros y cyfnod sydd i ddod yn anelu at gysylltu ag amcanion Strategaeth Oed-gyfeillgar Ceredigion. Gweler tudalen 37.

## Llesiant Llanbed

Mae blaenoriaethau'r grŵp cyflawni hwn yn dod dan yr amcanion canlynol o fewn Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion.

### Amcan 2: Cydweithio i leihau anghydraddoldebau yn ein cymunedau a defnyddio atebion cymdeithasol a gwyrdd i wella iechyd corfforol a meddyliol

Mae'r grŵp 'seiliedig ar le' hwn yn gweithredu ar ran BGC Ceredigion i gyflawni Cynllun Llesiant Lleol 2023-2028, drwy fonitro gweithgaredd llesiant yn Llanbed, a nodi cyfleoedd i weithio ar y cyd i gefnogi a gwella'r ddarpariaeth llesiant yn yr ardal. Mae'r grŵp dan Gadeiryddiaeth Greg Jones, Swyddog Corfforaethol Arweiniol presennol Porth Cymorth Cynnar Cyngor Sir Ceredigion.

Mae'r grŵp yn cynnwys sefydliadau partner o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ac aelodau cyfethol perthnasol o ran cyflawni'r Cynllun Llesiant. Mae

gweithio 'ar sail lle' yn cynnig platfform i ddarparu gwybodaeth ar gyfer cynlluniau a defnyddio mewnbwn partneriaid i ychwanegu gwerth ac osgoi dyblygu'r gwasanaethau a ddarperir. Er bod y Grŵp Cyflawni yn ystyried pob agwedd ar y Cynllun Llesiant Lleol, mae natur y grŵp yn golygu bod y gweithgaredd yn canolbwyntio'n naturiol ac yn bennaf ar gyflawni yn erbyn amcanion Llesiant Cymdeithasol y Cynllun. Mae tlodi a chaledi hefyd yn cael ystyriaeth ar draws pob elfen o waith y grŵp fel thema drawsbynciol, o ystyried effaith y themâu hyn ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Eleni, mae'r grŵp wedi canolbwyntio ar nifer o ffrydiau gwaith. Roedd un o'r rhain yn canolbwyntio ar weithio ar y cyd i ddatblygu gweithgareddau atal, cynradd ac eilaidd, i fynd i'r afael ag iechyd a llesiant yn yr ardal.
Daeth Llanbed yn gartref i Ganolfan Llesiant gyntaf Ceredigion yn 2023, gan ddarparu amrywiaeth ehangach o Wasanaethau Gydol Oes ar gyfer llesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol y trigolion. Mae'r Ganolfan, a agorwyd yn swyddogol gan y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Lles Meddyliol, hefyd yn gweithredu fel porth, drwy hwyluso mynediad at amrywiaeth eang o wasanaethau'r Cyngor, a gweithredu fel lleoliad i hyrwyddo gwybodaeth, cyngor a chymorth hanfodol. Mae'r Ganolfan yn adnodd hanfodol i gael mynediad gydol oes at wasanaethau cyffredinol a gwasanaethau llesiant yn Llanbed a'r ardal gyfagos, nawr ac yn y dyfodol.

Bu'r Grŵp Cyflawni hefyd yn gweithio'n agos â Thîm Allgymorth Datblygu Cymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i gynnal 'Sioe Iechyd a Lles Llanbed 2025' yng Nghanolfan Llesiant Llanbed yn Chwefror 2025, a oedd yn hybu negeseuon iechyd yn ogystal â darparu'r cyfle i arddangos gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.




Roedd nifer o bartneriaid yn cymryd rhan yn y digwyddiad, gan gynnwys nifer o wasanaethau o'r Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r Trydydd Sector. Daeth nifer dda i'r digwyddiad a chafwyd ymateb positif gan aelodau'r cyhoedd.

Parhawyd i roi diweddariadau chwarterol ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn symud tuag at Fodel Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Lles, gan arwain at gynnal cynllun peilot yn Llanbed. Nod y Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Lles (SMfHW) yw gweithio gyda phobl a'u cymunedau i greu'r amodau iawn iddyn nhw allu cael mwy o reolaeth dros eu hiechyd a'u lles.

Mae'r camau allweddol a gymerwyd yn cynnwys cytuno ar Ddiffiniad a 6 Egwyddor, a fydd yn eu tro yn ffurfio'r sail ar gyfer Fframwaith a Siarter SMfHW. Cynhaliwyd Uwchgynhadledd SMfHW ym Mawrth 2025, a oedd yn dathlu ac yn adeiladu cefnogaeth ar gyfer SMfHW yn Hywel Dda, yn ogystal ag arddangos ymdrechion i leihau anghydraddoldebau iechyd a chael gwell tegwch i gymunedau.

Bydd y cyfarfodydd Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd, a oedd yn canolbwyntio i ddechrau ar gynlluniau peilot mewn ardaloedd gwahanol ar draws y rhanbarth, yn cael eu haddasu i fod yn fforymau ar gyfer rhannu arfer da a dysgu. Mae cysylltiadau pellach yn datblygu i gefnogi **Peilot Gofal Canolradd Lleoliad-Llanbed** a datblygiad Tîm Amlasiantaeth, yn ogystal â'r prosiect Catalydd Gofal, sy'n anelu at ehangu'r dewis o fentrau gofal a chymorth bach, lleol, fel bod pobl yn gallu dewis o amrywiaeth o wasanaethau lleol, personol.

Mae Grŵp Cyflawni Llesiant Llanbed hefyd wedi bod yn gweithio'n agos â'r Tîm Dull Systemau Cyfan at Bwysau Iach Rhanbarthol.

Maes gwaith arall sylweddol i'r Grŵp Cyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf fu ystyried cyfleoedd i gyflwyno prosiect ieuenctid yn Llanbed, yn seiliedig ar ganfyddiadau adroddiad dichonoldeb a gynhaliwyd gan aelod o'r grŵp, fel rhan o'i rôl gyda Thîm Ymgysylltu Dinesig Prifysgol y Drindod Dewi Sant.

Canfu'r astudiaeth y byddai'r ardal yn elwa'n sylweddol o gael amgylchedd positif penodedig i feithrin pobl ifanc yr ardal.

Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â'r gwaith allgymorth a wnaed gan Wasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir Ceredigion, sydd hefyd wedi canfod yr angen am ddarpariaeth ieuenctid yn y dref.

Amcan pennaf yr astudiaeth dichonoldeb oedd nodi prosiect/prosiectau all rymuso'r genhedlaeth iau yn Llanbed trwy eu darparu â chyfleoedd ar gyfer twf personol, datblygu sgiliau, a chymryd rhan yn y gymuned.

Cytunodd Grŵp Cyflawni Llesiant Llanbed i ffurfio pwyllgor llywio yn 2024 i ystyried canfyddiadau'r astudiaeth, ac i ddefnyddio'r nodau a'r argymhellion a geir yn yr adroddiad fel canllaw.

Fel rhan o'r gwaith hwn, ystyriodd y Grŵp Llywio gyfleoedd cyllid, gan fapio lleoliadau ar gyfer prosiectau peilot posib, ac, yn hanfodol, dysgu o brosiectau eraill sy'n cael eu harwain gan ieuenctid, megis Dyfodol Ni, Caffi Stage Goat a 'Y Fan' Cyngor Sir Ceredigion.

Hefyd, gwahoddwyd siaradwyr gwadd yn cynrychioli prosiectau ieuenctid sydd eisoes wedi'u sefydlu ar draws y rhanbarth, e.e. Dr Mz yng Nghaerfyrddin, i gyflwyno a rhannu eu profiadau a'u dysgu, a darparu enghreifftiau o arfer da.

Mae'r datblygiadau dros y flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys **Ardal 43** a chwmni theatr **Stage Goat** yn ffurfio partneriaeth i dreialu Caffi Ieuenctid yn Llanbed, a fydd yn agor yng Ngwanwyn 2025.

Mae caffi dros dro, a sefydlwyd tan yr agoriad swyddogol, wedi gweld nifer o bobl ifanc yn mynychu, sy'n atgyfnerthu'r galw am ddarpariaeth o'r fath yn yr ardal. Gyda Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir Ceredigion hefyd yn parhau i gynnig cymorth a gweithgareddau atal yn yr ardal, cytunwyd bod amcanion y Grŵp Llywio ar gyfer yr ardal wedi'u diwallu am y tro.

### Creu Caffi Ieuenctid yn cynnig Man Diogel yn Llanbed

Cafodd Adroddiad Tlodi ac Amddifadedd Llanbed ei ddiweddaru a'i gyflwyno i'r aelodau hefyd yn ystod Chwarter 1. Roedd y data'n dangos mai'r prif feysydd amddifadedd yn ardal Llanbed oedd Diogelwch Cymunedol a Thai.

Bydd y grŵp yn parhau i fod yn hyblyg ac yn barod i ymateb i unrhyw faterion lleol newydd, i sicrhau'r canlyniadau a'r cynnydd gorau posib mewn perthynas â'r Cynllun Llesiant.

Mae sefydlu'r grŵp hwn wedi meithrin perthynas gadarn rhwng cyrff y sector cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector yn Llanbed, gan ddarparu cyfle gwych i barhau i ddatblygu mentrau sy'n hyrwyddo lles y trigolion.

## Grŵp Hinsawdd a Natur Ceredigion

Mae blaenoriaethau'r grŵp cyflawni hwn yn dod dan yr amcan canlynol o fewn Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion.

### Amcan 3: Gweithio i gyflawni mentrau datgarboneiddio yng Ngheredigion i ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol.

Roedd y prosiect peilot 'seiliedig ar le' hwn yn canolbwyntio i ddechrau ar gefnogi prosiect dichonoldeb allweddol yn ymwneud â datblygu rhwydwaith gwres rhanbarthol, wedi'i leoli ar gampws y Prifysgol ym Mhenglais. Erbyn hyn, cytunwyd bod y prosiect peilot hwn angen ei strwythur cyflawni arbenigol ei hun.

Mae hyn wedi caniatáu i flaenoriaethau grŵp cyflawni'r BGC hwn i ehangu ei gylch gwaith, gan roi ystyriaeth i'r holl faterion sy'n gysylltiedig a'r hinsawdd a natur ledled y sir. Mae'r grŵp wedi cefnogi datblygiad Siarter Teithio Llesol Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan bwysleisio pwysigrwydd sicrhau ei bod yn ategiad i Gynllun Trafnidiaeth Canolbarth Cymru.

Mae'r aelodau hefyd wedi cefnogi camau a gafodd flaenoriaeth gan y Bartneriaeth Natur Leol ac wedi cyfrannu at ddarlithoedd a gweithdai lleol.

O fewn y grŵp, mae'r trafodaethau hefyd wedi canolbwyntio ar y Cynllun Ynni Lleol, ac yn 2024, cymeradwyodd Ceredigion ei Gynlluniau Ynni Lleol. Mae'r cynlluniau hyn, a grëwyd ar y cyd â rhanddeiliaid amrywiol, ac a ariannir gan Lywodraeth Cymru, yn amlinellu sut y gall ardaloedd lleol newid i system ynni sero net erbyn 2050.

Bernir bod cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fewn cymunedau o faterion sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd a natur yn hanfodol, a bydd camau partneriaeth cychwynnol, yn canolbwyntio ar gydweithio i gyfleu negeseuon, yn cael eu datblygu drwy **Asesiad Risg Newid Hinsawdd**.

### Blaenoriaethau 2024-25

Yn y lle cyntaf, prif ffocws y grŵp cyflawni hwn oedd canolbwyntio ei ymdrechion ar gynnal **Asesiad Risg Newid Hinsawdd.**

Daethpwyd i gytundeb â BGC Sir Gaerfyrddin i gydweithio ar y darn helaeth hwn o waith. Gan weithio ochr yn ochr a'r ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi llunio fframwaith ar gyfer y prosiect hwn.

Ar hyn o bryd mae ein grŵp yn aros i benodi Cadeirydd a fydd yn arwain grŵp Ceredigion gyda'i weithgareddau ar y cyd, gan ddarparu'r cyd-destun lleol ar gyfer y gwaith asesu.

Bydd y grŵp hefyd yn:

- Annog camau gweithredu positif sy'n anelu at wella natur leol ac adnoddau naturiol Ceredigion.
- Pwysleisio risgiau hinsawdd, mesurau lliniaru ac addasiadau ar draws pob gweithgarwch – adeiladu, trafnidiaeth, tir ac asedau, a chaffael.
- Llunio negeseuon clir ac ymgysylltu â grwpiau cymunedol i'w hannog i gymryd rhan a chefnogi camau datgarboneiddio.

## Is-grwpiau a Fforymau

### Partneriaeth Diogelwch Cymunedol

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn is-grŵp o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, sy'n sicrhau fod yna gyfrannu tuag at yr agweddau o ddiogelwch cymunedol a geir yn y Cynllun Llesiant Lleol.

Mae'r Bartneriaeth yn cynnwys partneriaid statudol ac anstatudol, gan gynnwys cynrychiolwyr o Heddlu Dyfed Powys, Cyngor Sir Ceredigion, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a'r Gwasanaeth Prawf.

Mae'r fforwm yn darparu un ffocws penodol ar gyfer diogelwch cymunedol ac yn hwyluso'r broses o uwchgyfeirio materion a godir gan bartneriaid. Mae'r Bartneriaeth hefyd yn gyfrifol am Adolygiadau Dynladdiad Domestig yng Ngheredigion.

Nod y Bartneriaeth yw gweithio ar y cyd fel sefydliadau partner ar lefel strategol i amddiffyn cymunedau lleol rhag troseddu, i helpu pobl i deimlo'n fwy diogel ac i wella canlyniadau diogelwch cymunedol trigolion Ceredigion. Un o'r meysydd gwaith pwysig yn hyn o beth yw nodi ac archwilio problemau presennol a bygythiadau posib yn y dyfodol all effeithio ar Geredigion. Yn 2023 cynhaliodd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion Asesiad Strategol o Drosedd ac Anhrefn. Defnyddiodd y Bartneriaeth y data a gasglwyd gan y cyhoedd a phartneriaid i nodi dwy set o flaenoriaethau, a fydd yn sbarduno gweithgareddau parhaus y bartneriaeth dros y 3 blynedd nesaf.

| Blaenoriaethau Troseddu | Blaenoriaethau Teimlo'n Ddiogel |
|---|---|
| Troseddau Rhywiol | Lladrata |
| Trais yn erbyn Menywod | Seiberdroseddu / Twyll Ar-lein |
| Cyflenwi cyffuriau'n anghyfreithlon | Difrod Troseddol |
| Trais Domestig, gan gynnwys Stelcio ac Aflonyddu | Galwadau Diwahoddiad |
| Troseddu Treisgar | Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol |
| | Dim Presenoldeb Amlwg gan yr Heddlu |

## Enghreifftiau o waith Diogelwch Cymunedol diweddar.

Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus – cafodd y ddarpariaeth ar draws canol trefi Aberystwyth, Aberteifi a Llanbed ei hymestyn am 3 blynedd ychwanegol tan 2026.

*Gwneir Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, ac maent yn ei gwneud hi'n drosedd i unigolyn beidio â chydymffurfio â chais gan Swyddog o'r Heddlu neu Swyddog awdurdodedig i beidio ag yfed, neu wrthod ildio ei alcohol i'r Swyddog o fewn yr ardal benodedig. Nod Gorchmynion o'r fath yw lleihau'r Ymddygiad Gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â gor-yfed.*

### Ymgyrch Burleigh – Clirio, Dal ac Adeiladu

Rhwng **Awst 2023**, a'r adroddiad terfynol yn **Chwefror 2025** cafodd y dacteg partneriaeth amlasiantaeth Clirio, Dal ac Adeiladu, a gynlluniwyd gan y Swyddfa Gartref, a'i chymeradwyo gan yr Arolygiaeth Plismona, ei threialu am y tro cyntaf yng Nghymru fel rhan o Ymgyrch Burleigh yn Aberystwyth.

Llwyddodd Heddlu Dyfed-Powys, drwy weithio ochr yn ochr ag asiantaethau partner megis Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed, Cyngor Sir Ceredigion a'r Gwasanaeth Prawf, i fabwysiadu dull tair cam blaengar.

Llwyddodd Ymgyrch Burleigh i chwalu grŵp troseddu cyfundrefnol a oedd yn rhedeg nifer o lwybrau cyflenwi cyffuriau i ardal Aberystwyth, a mabwysiadwyd dull system gyfan o sicrhau ymyriadau wedi'u grymuso gan y gymuned, a fu'n effeithiol o ran mynd i'r afael â'r rhai sy'n achosi trosedd, ac yn gyfrifol am esbloetio bregusrwydd a mannau sy'n dueddol o ddioddef niwed.

### Cyllid Swyddfa Gartref ar gyfer Mannau Gyda Lefelau Uchel o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Yn Awst 2024, cyflwynwyd cynnig llwyddiannus i Swyddfa Comisiynydd Yr Heddlu a Throseddu dan gynllun cyllid y Swyddfa Gartref ar gyfer Mannau Gyda Lefelau Uchel o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Roedd y cynnig yn amlinellu'r uchelgais i ehangu'r defnydd o dechnoleg fodern er mwyn ceisio lleihau ac erlid achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ledled y sir. Roedd y strategaeth hon yn golygu gwariant cyfalaf ar gamerâu ac offer i gynyddu gallu mannau gyda lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol i fonitro a chasglu tystiolaeth.

Ceir mwy o wybodaeth am waith Partneriaeth Diogelwch Ceredigion yn y ddolen hon

**[Strategaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion]**

## Grŵp Adsefydlu Ffoaduriaid

Mae'r Grŵp Adsefydlu Ffoaduriaid yn cydlynu'r gwaith o adsefydlu ffoaduriaid a gwasgaru ceiswyr lloches ar draws Ceredigion. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bartneriaid BGC perthnasol:

- Cyngor Sir Ceredigion
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Heddlu Dyfed Powys
- Coleg Ceredigion
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Prifysgol Aberystwyth

Mae grwpiau nawdd cymunedol Croeso Teifi ac Aberaid hefyd yn chwarae rôl hanfodol, ynghyd â Chynghorau Tref Aberystwyth a Llanbed, a'r Tîm Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol.

Mae'r grŵp wrthi ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer dyfodiad ceiswyr lloches dan Gynllun Gwasgaru Ceiswyr Lloches Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, nid yw Clearsprings, y darparwr llety a gontractwyd gan Lywodraeth y DU, wedi dod o hyd i dai addas yng Ngheredigion eto.

Mae prinder cyson eiddo rhent preifat fforddiadwy yn parhau i amharu ar ein hymdrechion i adsefydlu. O ganlyniad, ni chafodd unrhyw ffoaduriaid eu hadsefydlu dan Raglen Adsefydlu'r DU eleni. Serch yr heriau, rydym yn benderfynol o groesawu o leiaf un teulu o ffoaduriaid bob blwyddyn.

Nid yw'r cynllun Cartrefi i Wcráin yn cael ei effeithio gymaint gan y farchnad dai leol. Gall teuluoedd o Wcráin sy'n ffoi o'r gwrthdaro gael eu lletya gan bobl leol, gan ddarparu ateb mwy hyblyg a chyflym.

Ers Mawrth 2025, rydym yn cefnogi 47 o deuluoedd o Wcráin a 26 o letywyr lleol. Mae pobl yn dal i gyrraedd fesul tipyn; mae'r rhan fwyaf yn dod i ymuno â'u teuluoedd sydd yma'n barod.

**Adborth gan Ffoaduriaid ac Integreiddio Cymunedol**

Ymatebodd 31 o ffoaduriaid i'n harolwg bodlondeb ar gyfer 2024-25. Mae'r adborth yn darparu darlun gwerthfawr o'u profiadau:

**Llety** – Rhoddodd 74% sgôr o 4/5 neu 5/5 ar gyfer eu tai

Roedd pryderon cyffredin yn cynnwys:

- Lleoliadau anghysbell
- Problemau gwresogi a dŵr poeth
- Dim gardd nag ardal awyr agored
- Ardal fyw annigonol

**Cyflogaeth ac Addysg**

- Mae 58% o ffoaduriaid oedran gwaith mewn cyflogaeth
- Mae 8 wedi ymddeol; mae 4 mewn addysg bellach neu addysg uwch
- Rhoddodd 63% sgôr o 4/5 neu 5/5 ar gyfer boddhad swydd

**Gwasanaethau Cymorth** - Rhoddodd 76% sgôr o 5/5 i'r gwasanaeth cymorth i ffoaduriaid

Dyma'r prif heriau a nodwyd:

- Dysgu Saesneg
- Dod o hyd i swyddi addas ar gyfer eu sgiliau
- Tai fforddiadwy
- Mynediad at ofal iechyd a thrafnidiaeth
- Aniscrwydd ynghylch statws mewnfudwyr

Dywedodd un, "mae yna ansicrwydd ynghylch caniatâd pellach i aros a statws yn y dyfodol o fewn y Deyrnas Unedig, sy'n gwneud i ffoaduriaid o Wcráin (yn enwedig y rhai gyda phlant) deimlo'n bryderus."

**Dywedodd 100% o'r ymatebwyr eu bod wedi cael croeso gan y gymuned leol.** Dywedodd un person ifanc:

*"Mae'n heddychlon iawn yma, mae'r bobl leol yn neis iawn ac yn garedig tuag atom ac mae gan fy mrawd lawer o ffrindiau yn lleol."*

Serch yr heriau parhaus, mae BGC Ceredigion yn parhau i fod wedi ymrwymo i gefnogi pobl sydd wedi'u dadleoli. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid a'r gymuned i feithrin amgylchedd croesawgar a chynhwysol ar gyfer pob ffoadur a cheisiwr lloches.

## Fforwm Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog

Mae'r blaenoriaethau a osodwyd gan BGC Ceredigion yn hwyluso cyfleoedd datblygu ar gyfer cymunedau lleol gyda buddiannau amrywiol. Mae hyn yn berthnasol i Fforwm Cyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog Ceredigion, sy'n denu cynrychiolaeth eang o gymuned y Lluoedd Arfog.

Mae sefydliadau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector yn cydweithio i gynnig y cymorth gorau posib er budd cyn-filwyr a'u teuluoedd. Mae'r gwaith a wneir yn anelu at leihau'r rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau, ac mae mentrau newydd yn cael eu datblygu i geisio darparu mesurau cymorth angenrheidiol cyn gynted ag y bo modd. Yn fwyaf diweddar, mae'r cydweithio wedi canolbwyntio ar fenter iechyd o fewn canolfan feddygol, sy'n annog cyn-filwyr a'u teuluoedd i ddefnyddio gwasanaethau iechyd lleol.

Gan ddarparu'r Ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Fforwm, mae Cyngor Sir Ceredigion ei hun wedi llwyddo i gael achrediad arian dan Gynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn (DERS), sy'n annog cyflogwyr i gefnogi gwasanaethau amddiffyn ac ysbrydoli sefydliadau eraill i wneud yr un fath. Mae cais ar y gweill ar hyn o bryd hefyd i ddilysu a sicrhau achrediad Aur y cynllun DERS, gan arddangos ymrwymiad ac eiriolaeth bositif ar ran cymuned y Lluoedd Arfog.

Mae aelodau eraill y Fforwm sydd ag achrediad DERS yn cynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Age Cymru Dyfed, Heddlu Dyfed Powys, Adferiad a Woody's Lodge.

*"Gwella canlyniadau iechyd a lles defnyddwyr, gyda'r ddarpariaeth o gyngor wedi'i deilwra yn arwain at nifer o ganlyniadau iechyd positif ar gyfer cyn-filwyr."*

ARMED FORCES COVENANT

## Fforwm Darparwyr Plant a Phobl Ifanc

Mae'r Fforwm Darparwyr Plant a Phobl Ifanc wedi parhau i ddenu nifer dda o gyfranogwyr i'w gyfarfodydd ar-lein rheolaidd ac mae yna gynrychiolaeth ardderchog o sefydliadau sy'n cefnogi Plant a Phobl Ifanc a'u Rhieni/Gofalwyr.

Yn ystod 2024/25 cafodd y cyfrifoldeb dros gydlynu'r cyfarfodydd ei drosglwyddo o Reolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant Awdurdod Lleol Ceredigion i Reolwr Corfforaethol Ymyrraeth Gynnar a Rheolwr Corfforaethol y Gwasanaethau Ieuenctid.

Fel rhan o'r trosglwyddiad, cynhaliwyd sesiwn ar-lein gyda'r cyfranogwyr i ystyried cylch gwaith y grŵp. Roedd y cyfranogwyr yn awyddus i weld y fforwm yn parhau i fod yn gyfrwng i rannu gwybodaeth, a chafwyd nifer o awgrymiadau mewn perthynas ag alinio strategol, cynrychiolaeth, ac eitemau sefydlog ar yr agenda.

Roedd y cyfranogwyr yn awyddus i sicrhau bod llais y person ifanc yn sbarduno gwaith y grŵp, a'n bod ni'n archwilio'r ffordd orau o sicrhau hynny. Yn ystod y cyfarfod mwyaf diweddar cafwyd adroddiad gan y Cyngor Ieuenctid.

Mae'r mynychwyr wedi parhau i elwa o dderbyn cyflwyniadau perthnasol ar weithio gyda Phlant a Phobl Ifanc, a neilltuir amser yn ystod y cyfarfod i gyfranogwyr roi diweddariadau strwythuredig ar ddatblygiadau'r gwasanaeth.

## Fforwm Dyfodol Dwyieithog

Cafodd ein strategaeth ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg ei chyhoeddi yn Rhagfyr 2024 ar gfyer y pum mlynedd nesaf, yn unol â Safon145/146. Mae ein Fforwm Iaith sef 'Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion' yn gyfrifol am lunio camau gweithredu ein strategaeth. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cymryd camau i ailstrwythuro ein fforwm i sicrhau dulliau mwy strategol a rhagweithiol.

Wrth ailstrwythuro rydym wedi adolygu ein cylch gwaith, a fydd yn cael ei adolygu'n flynyddol, yn ogystal ag ehangu aelodaeth y fforwm i sicrhau partneriaeth effeithiol sy'n cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid, a fydd yn cyrraedd cynulleidfa ehangach. Yn Haf 2025 byddwn yn cynnal ein Cynhadledd Iaith gyntaf yng Ngheredigion. Mi fydd hyn yn gyfle inni ddod â phartneriaid y fforwm at ei gilydd i ddathlu'r ymdrech i barhau i hyrwyddo'r Gymraeg yn ein Sir.

Mae manylion pellach ar gael ar y ddolen ganlynol:
StrategaethHyrwyddo'rGymraegCeredigion2024-29pdf

**Aelodaeth Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion**

- Cyngor Sir Ceredigion: gan gynnwys

Aelod o'r Cabinet dros yr Iaith a Diwylliant Cymru (Cadeirydd), Swyddogion yn cynrychioli: Gwasanaethau Democrataidd, Tîm Datblygu'r Gymraeg, Gwasanaethau Addysg Ceredigion, Uned Gofal Plant, Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion, Clic Ceredigion a swyddogion perthnasol eraill yn ôl yr angen.

- Prifysgol Aberystwyth
- Barcud
- CAVO
- Cered (Menter Iaith)
- Canolfan Dysgu Cymraeg Ceredigion
- Coleg Ceredigion
- Cwmni Iaith
- Heddlu Dyfed Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Canolfan Byd Gwaith
- Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- Mudiad Meithrin
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Theatr Felinfach
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Urdd Gobaith Cymru Ceredigion
- Llywodraeth Cymru
- Clwb Ffermwyr Ifanc Ceredigion

# 4. Craffu ac Adolygu

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn destun craffu a throsolwg gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ogystal â Phwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Awdurdod Lleol.

## Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn ddiweddar, mi awgrymodd Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ar noswyl 10fed Pen-blwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 y dylai prif ffocws Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fod yn y meysydd canlynol:

- hinsawdd a natur
- diwylliant Cymru a'r Gymraeg
- lles yr economi
- iechyd a lles.

Mae cyrff cyhoeddus yn cael eu hannog i ymrwymo i'r canlynol:

- **Targedau i achub natur**
- **Ail-adeiladu ffydd yn y penderfyniadau a wneir**
- **Cynllun cydnerthedd bwyd cenedlaethol**
- **Neilltuo cyllid ar gyfer atal**
- **Cyflog byw gwirioneddol**

## Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu

Dan Adran 35 o Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol bod Awdurdodau Lleol yn sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y grym i graffu ar y penderfyniadau a wneir, neu unrhyw gamau eraill a gymerir gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau.

Mae gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i gyflwyno i Bwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu Cyngor Sir Ceredigion yn dilyn pob un o'i gyfarfodydd. Mae Cadeirydd y Pwyllgor, y Cynghorydd Wyn Evans, yn mynychu cyfarfodydd y BGC fel arsylwr ac i roi adborth ar y trafodaethau a'r materion a godwyd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

# 5. Sesiynau Sbotolau

Yn ystod 2024-25 mae **"sesiynau sbotolau"** wedi'u cynnwys ar agenda cyfarfodydd y BGC.  Mae'r sesiynau hyn wedi galluogi'r BGC i ganolbwyntio ar flaenoriaethau a thestunau penodol.

Yn ystod 2024-25 cynhaliwyd tair Sesiwn Sbotolau:

## Sbotolau Hinsawdd a Natur (3 rhan)

Y "sesiwn sbotolau' gyntaf oedd Newid Hinsawdd a'r bygythiad yn sgil dirywiad byd natur.

Gan alw ar waith y Grŵp Cyflawni Hinsawdd a Natur, rhoddodd aelodau'r BGC ystyriaeth fwy manwl i faterion yn ymwneud â'r thema unigol hon, a chanolbwyntiwyd ar y dair elfen allweddol ganlynol:

- **Ymgyrch Ras i Sero** – serch y gefnogaeth leol a sefydlwyd mewn rhai ardaloedd ledled Cymru, roedd BGC Ceredigion o'r farn bod ystyriaeth i ddulliau a ffyrdd o weithio cymeradwy Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn hanfodol.

  Gan dderbyn safbwynt presennol y BGC, nid yw hyn yn y bôn wrth gwrs yn dylanwadu neu'n amharu ar allu unrhyw bartner unigol i ymrwymo ymhellach ar lefel unigol i'r ymgyrch hon.

**Sbotolau Siarter Teithio Llesol Canolbarth a Gorllewin Cymru** - Mae'r Siarter hon, sy'n darparu fframwaith trefniadaethol sy'n anelu at hyrwyddo opsiynau teithio cynaliadwy ar gyfer staff, wedi'i datblygu ar y cyd gan bartneriaid y BGC ac mae hi bellach yn cynnwys 17 o addunedau hyblyg ar gyfer gwelliant.

Y bwriad yw sicrhau bod partneriaid, o fewn cynllun gweithredu tair blynedd, yn gallu mynd i'r afael â'r ymrwymiadau hyn yn y drefn sydd orau ganddynt, ac yn unol â'r adnoddau unigol sydd ganddynt.

Mae yna bedwar maes ffocws, sef:

- Teithio Llesol
- Trafnidiaeth Gyhoeddus
- Datgarboneiddio Trafnidiaeth, a
- Newid Ymddygiad.

Am fod hyn oll yn ategiad i'r addunedau arfaethedig o fewn Siarter Teithio Llesol Canolbarth a Gorllewin Cymru, cytunodd y BGC ar bwysigrwydd sicrhau ei fod yn cydweddu â Chynllun Teithio Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru. Cytunwyd mai da o beth fyddai cynnal sesiwn sbotolau ddilynol, yn cynnwys y Cynllun Teithio Rhanbarthol a'r Siarter Teithio gyda'i gilydd yn y dyfodol, unwaith bod yr adroddiadau ar ymgynghoriad y BGC wedi'u derbyn.

Cytunodd y partneriaid fod gwella hygyrchedd yn hanfodol, o ystyried y cyd-destun gwledig ar gyfer gweithredu.

Mae gwe-dudalen Siarter Teithio Llesol Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gael bellach, ac mae'n cynnig cyfle i bartneriaid unigol gofrestru ac ymuno â'r Siarter, gan addunedu y bydd eu sefydliadau'n ymrwymo i geisio cadw at yr addunedau.

Yng ngoleuni'r gwaith a wnaed, mi fydd angen i ganlyniadau ymgynghoriad Cynllun Teithio Llesol Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru, unwaith y byddant wedi'u rhannu, gael eu hadlewyrchu yn unrhyw gamau pellach a gymerir gan yr holl bartneriaid, all yna ystyried mabwysiadu rhai, neu bob un o addunedau'r Siarter.

*Rydym yn cymryd camau i leihau allyriadau carbon, i wella ansawdd yr aer, ac i gefnogi iechyd a lles staff*

*"Dangos ymrwymiad i ddulliau trafnidiaeth iachach a mwy cynaliadwy. Arddangos ymrwymiad i gefnogi cerdded, beicio, trafnidaeth gyhoeddus, a defnydd o gerbydau allyriadau isel iawn."*

- **Asesiad Risg Newid Hinsawdd –** Roedd elfen olaf y sesiwn sbotolau yn canolbwyntio ar yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd, darn o waith sy'n cael blaenoriaeth gan y grŵp cyflawni Hinsawdd a Natur.

  Mae'r BGC dan rwymedigaeth i gynnal yr asesiad risg, a heb unrhyw gyllid penodol ar gael ar gyfer y gwaith, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wedi mynd ati mewn ffyrdd gwahanol, gyda rhai yn cael gafael ar gyllid allanol i gyflogi ymgynghorwyr a rhoi'r broses ar waith. Fel yr esboniwyd yn gynharach mae'r **Grŵp Hinsawdd a Natur** yn gweithio mewn partneriaeth â BGC Sir Gaerfyrddin i gynnal yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd.

  Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru) wedi datblygu fframwaith i gynorthwyo Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i asesu a deall risgiau newid hinsawdd o fewn cyd-destun lleol, yn enwedig mewn perthynas â llesiant, ac mae'r broses hon yn dechrau, yn naturiol, drwy fapio'r hyn mae sefydliadau'n ei wneud yn barod.

  Bydd Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn cynnig cymorth i gynnal sesiynau gweithdy cychwynnol sy'n anelu at adolygu'r gwaith mapio presennol, a chyfrannu ymhellach at ffocws y grŵp cyflawni hwn ar Amcan 3 o'r Cynllun Llesiant Lleol, sef cyflawni mentrau datgarboneiddio ar draws Ceredigion.

  Mae'r gwaith hwn hefyd yn cyd-fynd yn agos â Chynllun Ynni'r Ardal Leol a Chynllun Ynni Canolbarth Cymru.

## Sbotolau Trafnidiaeth

Roedd yr ail sesiwn sbotolau yn canolbwyntio ar Deithio Llesol, gan roi ystyriaeth i waith Cynllun Teithio Rhanbarthol Tyfu Canolbarth Cymru a Siarter Teithio Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforaethol Canolbarth Cymru yn gyfrifol am:

- Gynllunio Trafnidiaeth Ranbarthol
- Cynllunio Datblygiad Strategol
- Llesiant Economaidd, ac mae'n gyfrifol am ddatblygu polisïau trafnidiaeth sy'n hyrwyddo ac yn annog trafnidiaeth ddiogel, integredig, effeithlon ac economaidd i'r ardal, o'r ardal, ac o fewn yr ardal ei hun.

Bydd pob Awdurdod Priffyrdd unigol (Cynghorau Ceredigion a Phowys) yn darparu rhaglen o ymyriadau i roi'r polisïau ar waith.

Mae rhai mentrau ar droed yn barod, gan gynnwys Llwybrau Teithio Llesol yn Aberystwyth, Aberteifi a Llanbed, cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus a sgriniau gwybodaeth digidol, yn ogystal â bysus electronig a mannau gwefru ychwanegol.

Mae partneriaid y BGC wedi rhoi ystyriaeth strategol i gyfyngiadau'r rhwydwaith rheilffyrdd yng Nghanolbarth Cymru, ac awgrymwyd y gellid dyrannu grantiau Llywodraeth Cymru a fwriedir ar gyfer y seilwaith rheilffyrdd  i wasanaethau bysus yn yr ardaloedd gwledig hyn yn lle.

Mae dadansoddiad a gynhaliwyd gan yr Ymddiriedolaeth Garbon (2022) ar ran Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi dangos bod Caffael yn gyfrifol am 58% o ôl troed carbon y sefydliad, ac yna Defnydd o Adeiladau (23%) a Thrafnidiaeth (19%).

Yn seiliedig ar y Dadansoddiad hwn o Ôl Troed Carbon, cafodd Cynllun Trafnidiaeth a Hygyrchedd 2024-2034 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ei ddatblygu, a chafodd y gwaith ei ymestyn i'r Siarter Teithio Llesol, a gyflwynwyd yn y lle cyntaf gan Dr Tom Porter (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro).

Yn ystod y sesiwn sbotolau hon nodwyd yr angen i gyflawni gwaith pellach  ar newid ymddygiad.

Ar ôl nodi'r cyllid a dderbyniwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynorthwyo rhaglenni newid ymddygiad, mae BGC Ceredigion wedi gofyn bod adroddiad cynnydd pellach yn cael ei ddarparu ar gyfer yr aelodau yn un o gyfarfodydd y BGC yn y dyfodol.

Yn y sesiwn sbotolau hefyd crybwyllwyd dulliau o Deithio Llesol, gan gyfeirio'n benodol at yr heriau sy'n gysylltiedig â chwrdd ag ymrwymiadau mewn ardal wledig.

Mae BGC Ceredigion wedi nodi'r angen i sicrhau bod Cynllun Teithio Rhanbarthol Canolbarth  a Gorllewin Cymru a Siarter Teithio Llesol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael eu gweithredu ochr yn ochr i sicrhau'r effaith a'r cyfleoedd gorau posib.

Daeth ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Teithio Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru i ben ar 4 Ebrill 2025. Pan fydd y canlyniadau wedi'u dadansoddi bydd yr wybodaeth yn cael ei rhannu gyda'r BGC i ystyried camau gweithredu pellach.

## Sbotolau Gwaith Teg

Yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngorffennaf 2024, cynhaliodd yr aelodau drafodaeth ar Waith Teg.

"Ystyr gwaith teg yw bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli'n deg, bod ganddynt sicrwydd a'u bod yn gallu dod yn eu blaen mewn amgylchedd iach a chynhwysol, lle mae hawliau'n cael eu parchu."

(Gwaith Teg Cymru – Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg 2019)




Cytunodd Is-grŵp Tlodi y BGC i drefnu Grŵp Gorchwyl a Gorffen i archwilio **Gwaith Teg** mewn mwy o fanylder. Daeth y grŵp hwn ag arweinwyr Adnoddau Dynol a Chaffael o sefydliadau allweddol at ei gilydd, gan gynnwys:

- Cyngor Sir Ceredigion
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- CAVO
- Coleg Ceredigion

- Heddlu Dyfed Powys
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Cwrddodd y grŵp i nodi arfer presennol ac i awgrymu cyfleoedd i wella o fewn eu sefydliadau eu hunain.

Cyflwynwyd adroddiad interim i'r BGC yn Rhagfyr 2024, yn amlinellu 15 o argymhellion. Ymhlith y rhain roedd yna gynnig i ddatblygu a chyflwyno Siarter Gwaith Teg ddrafft, i'w chymeradwyo a'i gweithredu gan y BGC. Cymeradwyodd y BGC yr argymhellion.

Bydd y Siarter ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu cyfarfod ym Mehefin 2025. Byddant yn cael cais i roi'r camau gweithredu sydd yn y Siarter ar waith yn ystod cylch oes ein Cynllun Llesiant Lleol presennol, sy'n dod i ben ym Mawrth 2028.

Byddant yn adrodd ar eu cynnydd o ran cyflawni'r Siarter bob blwyddyn, fel rhan o'n Hadroddiad Blynyddol.

## Sbotolau Ffyrdd o Weithio

Arweiniwyd y sesiwn sbotolau hon gan Gyngor Sir Ceredigion ac mi ddechreuodd gyda throsolwg o'r prosiect 'Ffyrdd o Weithio', a gyflwynwyd yn ystod Covid-19, oedd yn cynnwys cynhyrchu Strategaeth Gweithio Hybrid ar gyfer y Cyngor. Sefydlwyd y prosiect i archwilio'r awydd am newid hirdymor o fewn y gweithlu, ac i ba raddau y mae yna newid o ran y weledigaeth strategol ehangach mewn perthynas â ble, pryd a sut y gall pobl gyrchu gwasanaethau. Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu â staff yn Ebrill 2021 i gasglu adborth, profiadau, syniadau a gofynion y gweithlu yn y dyfodol, i gynorthwyo gyda'r broses o wneud penderfyniadau strategol.

Cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu cyhoeddus ar ôl hynny pan ofynnwyd i drigolion sut yr hoffent weld unrhyw fannau segur yn Swyddfeydd y Cyngor yng Nghanolfan Rheidiol a Phenmorfa'n cael eu defnyddio. Roedd yr adborth gan y cyhoedd yn dangos mai Iechyd a Gofal Cymdeithasol oedd yr awgrymiadau mwyaf poblogaidd ar gyfer y ddau safle.

Ar sail yr adborth hwn, mae swyddfeydd wedi'u hailwampio i gefnogi'r 'Rhaglen Llesiant Gydol Oes' ym Mhenmorfa, gyda'r 'Ganolfan Byw'n Annibynnol' newydd yn agor yn 2024 ar y llawr gwaelod. Mae'r Ganolfan yn hyrwyddo annibyniaeth a chymorth cymunedol ac mi fydd yn trawsnewid y ffordd mae unigolion yn dod o hyd i atebion ac yn cael gafael ar wybodaeth i helpu'u hunain. Yng Nghanolfan Rheidol, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wrthi ar hyn o bryd yn treialu'r defnydd o wahanol rannau o'r adeilad i ddarparu gwasanaethau.

Roedd y BGC yn cydnabod bod nifer o sefydliadau ledled y Sir yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd ar hyn o bryd ynghylch defnydd o adeiladau. Cytunodd y BGC i ddal ati i gynnal sgyrsiau ynghylch archwilio cyfleoedd i gyd-leoli gwasanaethau, gyda chonensws barn y gellid o bosib wneud defnydd gwell o'r costau a arbedir ar wasanaethau rheng flaen.

Cytunwyd bod yn rhaid i'r BGC barhau i fod yn llwyr ymwybodol o ofynion ei gymunedau a chydnabod tueddiadau sy'n datblygu. Rhoddwyd ystyriaeth i bwysigrwydd bod yn fwy gweladwy yn y gymuned a symud i ffwrdd o'r syniad mai adeilad ffisegol yw'r unig ffordd o gael mynediad at wasanaethau.

Mae gan atebion blaengar megis hyrwyddo symudiad tuag at fwy o hyblygrwydd, gan gynnwys mwy o weithio gartref, clinigau dros dro a darpariaeth leol, y potensial i lwyddo. Cyfeiriwyd at y Canolfannau Gofal Integredig sydd wedi'u lleoli yn Aberaeron ac Aberteifi, a bod y rhain wedi cael derbyniad da, gyda'r potensial i gael rhai tebyg mewn trefi marchnad eraill fel Llanbed.

Cafodd aelodau'r BGC eu briffio hefyd ar arolwg a gynhaliwyd gan Gymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO) i bennu anghenion grwpiau trydydd sector. Nodwyd ei bod hi'n ymddangos bod yna ddiddordeb o hyd ymhlith grwpiau trydydd sector mewn rhannu swyddfeydd yn Aberystwyth ac awgrymwyd y gallai fod yn fuddiol i'r BGC gael gwell syniad o'r hyn mae sefydliadau trydydd sector a grwpiau cymunedol yn chwilio amdano yn nhermau mannau gwaith.

Gan ganolbwyntio ar Aberystwyth i ddechrau, bydd y BGC yn mynd ati i ffurfio grŵp trafod lle gellir trafod gofynion y trydydd sector yn fwy manwl, yn y gobaith o ganfod atebion sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall. Yna, y bwriad yw ystyried ymestyn y dull hwn i ardaloedd eraill yn y sir.

# 6. Mentrau - 2024-25

## Mentrau

Yn ogystal â phrif waith y Bwrdd fel yr amlinellwyd uchod, mae'r BGC hefyd wedi bod yn ymwneud â'r mentrau canlynol yn ystod 2024-25.

## Partneriaeth Bwyd Lleol Ceredigion

Dros y cyfnod diwethaf mae'r bartneriaeth hon wedi ail-gynneu ei gwaith ac wedi cynnal arolwg tyfu manwl.

Gan alw ar dyfwyr unigol, a chynhyrchwyr a dosbarthwyr bach, yn ogystal â defnyddwyr terfynol y bwyd a gynhyrchir, mae'r rhwydwaith wedi mynd ati i weithio ar hyd y gadwyn gyflenwi mewn dull pwrpasol o'r gwaelod i fyny.

Casglwyd manylion am brofiadau bywyd, ynghyd â darparu cyfle i ddarparu syniadau newydd ar gyfer y dyfodol.

Mae'r gwaith hwn wedi dod â'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector at ei gilydd wrth iddyn nhw barhau i dargedu fforddiadwyedd a hwylustod cael mynediad at fwyd o ffynonellau lleol.

Mae'r gwaith hwn hefyd yn anelu at ddarparu rhai o'r sylfeini ar gyfer cynhyrchu **Strategaeth Bwyd Da Ceredigion**, ac mae'r partneriaid wedi cytuno i gydweithio ymhellach ar gynllunio a chynnal **Uwchgynhadledd Diogeledd Bwyd** yn nes ymlaen eleni.

Mae'r gwaith yn ategu'n llwyr yr alwad o fewn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n tynnu sylw at yr angen i ddatblygu cynllun hirdymor i wella diogeledd bwyd Cymru, a sicrhau mynediad cyfartal at ddeiet lleol, fforddiadwy, iach a chynaliadwy.

Yn wir, gyda chymorth partneriaeth eang a chysylltiadau â grŵp cyflawni Hinsawdd a Natur y BGC, mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd o fewn y gymuned sectoraidd hon wedi bod yn un effeithiol ac effeithlon, a chafwyd galwadau pellach i'w defnyddio ar draws cymunedau eraill o ddiddordeb.

## Cynllun Natur Lleol Ceredigion

Nod Cynllun Natur Lleol Ceredigion, sy'n dod dan gylch gwaith grŵp cyflawni Hinsawdd a Natur y BGC, yw dylanwadu'n strategol ar themâu ariannu – gweirgloddiau, glaswelltir, peillwyr, tyfu bwyd a choed ffrwythau, ac mae'n canolbwyntio ar gamau gweithredu allweddol cyfredol sy'n targedu gwelliannau mewn cartrefi gofal, tai cymdeithasol ac ysgolion. Gan ystyried buddiannau gwybyddus cynyddu mynediad pobl at natur, mae'r cynllun hwn yn galw ar bartneriaid i hyrwyddo hynny o fewn eu rhwydweithiau ac i gydweithio i sicrhau mwy o fuddiannau gwerth-ychwanegol cyfunol o fewn eu cymunedau.

***"Dod â natur yn ôl at stepen drws pobl, lle maent yn byw, yn gweithio ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus."***

## "Haf Hwyl" Aberteifi

Mae cyfres estynedig o ddigwyddiadau cymunedol dan y faner "Haf Hwyl" yn cael eu trefnu ar gyfer cymuned 'Pentop' Aberteifi. Wedi'u trefnu gan wirfoddolwyr cymunedol, bydd y sesiynau'n digwydd ar foreau Iau (6 sesiwn 11am-2pm, gyda phryd o fwyd poeth am ddim) trwy gydol gwyliau'r haf, ac fel ategiad pellach i'r sesiynau hyn, bydd gweithgareddau ychwanegol yn anelu at cynyddu hyder unigolion a gwella eu sgiliau personol.




Mae partneriaid yn gweithio ar y cyd i wella'r cyfleoedd sydd ar gael i drigolion ac mae'r gweithgaredd yn digwydd gyda chymorth grantiau. Mae enghreifftiau (ond nid rhestr gyflawn) o'r partneriaid sy'n cymryd rhan yn uniongyrchol yn cynnwys Tai Wales & West, Barcud, RAY Ceredigion, Jigso, Ardal 43, Ceredigion Actif, Dysgu Bro Ceredigion, Coleg Ceredigion ac ati. Gwelwyd cryfder amlwg yn y dull hwn o weithio mewn partneriaeth i ddarparu cymorth llesiant.

Mae'r gweithgareddau'n cael eu cefnogi gan nifer o ffynonellau gwahanol, gan gynnwys y rhaglen 'Lluosi', a cheir enghreifftiau o unigolion sydd wedi llwyddo i gwblhau cyrsiau i wella eu sgiliau personol.

Mae cyfranogwyr wedi elwa o Gwrs Digidol/Cyflogadwyedd/Cyllidebu a Sgiliau Bywyd 9 wythnos, a gafodd ei ariannu'n llawn gan Addysg Oedolion Cymru. Canolbwyntiwyd hefyd ar Adeiladu Gwydnwch/Hyder/ Rheoli Straen/Gorbryder.

Mae cyfranogwyr Rheolaeth/Iechyd a Lles lleol wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau penodol i'w galluogi i wella eu sgiliau personol.

Mae'r sesiynau ychwanegol hyn, sy'n anelu at wella sgiliau personol, wedi arwain at greu llwybrau cyflogaeth newydd ar gyfer cyfranogwyr. Mae syniadau busnes newydd wedi dod i'r fei ac mae gwella sgiliau rhifedd wedi gwella CVau personol unigolion wrth iddyn nhw wneud cais am gyrsiau ychwanegol a chyfleoedd cyflogaeth i geisio gwella eu dyfodol.

Mae'r fenter hon yn chwalu rhwystrau drwy amryw o ddulliau ac enghreifftiau o weithgareddau cynhwysiant ychwanegol, gan gynnwys:

- Prosiect gardd gymunedol – prosiect gardd ysgol a dderbyniodd £4,000 o gyllid yn ddiweddar drwy grant 'Mannau Lleol ar gyfer Natur'. Mae'n canolbwyntio ar wella lles yn yr amgylchedd naturiol drwy weithio gyda'r gymuned i ddefnyddio'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau tyfu bwyd.
- "Sesiynau Coffi, Cacen a Sgwrs" – sesiynau wythnosol i annog rhieni i ddod at ei gilydd ar gyfer sesiwn hamddenol a gynhelir ar safle'r ysgol.

Mae'r cydweithio'n parhau drwy gyfrwng y fenter hon ac mae'r gweithgarwch yn canolbwyntio ar greu ysgol leol gymunedol – adroddir ar hyn gan grŵp cyflawni Llesiant BGC Ceredigion.

## Dull Systemau Cyfan at Bwysau Iach

Gyda'r Bwrdd Iechyd yn rhoi arweiniad ar hwn, mae'r partneriaid yn cydweithio i nodi, dylunio a chynllunio ar gyfer ymyrraeth gynnar a darparu camau atal.


Mae heriau iechyd hirdymor cydnabyddedig yn bodoli o fewn cymunedau lleol, ac mae'r partneriaid yn unedig o ran eu dealltwriaeth a'u ffocws ar y dulliau newydd sydd eu hangen i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb er budd y trigolion, ac yn wir, y system iechyd gyfan.

Mae partneriaid yn gweithio ar y cyd i gryfhau mesurau atal, gan gadw pobl yn iach am gyn hired â phosib. Drwy 3 sesiwn hyfforddi'r hyfforddwr a nifer o weithdai dilynol a gynhaliwyd gyda phartneriaid BGC Ceredigion o'r ddau grŵp cyflawni, rydym wedi cydweithio a chydnabod bod angen annog y camau sy'n anelu at newid pethau ar y cyfle cynharaf.

Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried y cysylltiadau cynhenid sy'n bodoli rhwng iechyd a maeth. Gyda hyn mewn golwg, mae partneriaid o fewn grwpiau cyflawni Llesiant Aberteifi a Llanbed wedi nodi ar y cyd y bydd ffocws y gwaith hwn, yn y lle cyntaf, drwy is-system fuddiant, yn canolbwyntio ar '**Fynediad at Fwyd'**

**Bydd hwn yn faes gwaith a gaiff flaenoriaeth yn y dyfodol gan y BGC**

***"Trwy ymdrechion ar y cyd, nod y gwaith hwn yw gwneud hi'n haws i bobl gael mynediad at fwyd maethlon, i fod yn egnïol, a byw bywydau iachach, gan adeiladu sylfaen ar gyfer dyfodol iachach ar draws Cymru."***



DULL SYSTEMAU CYFAN at BWYSAU IACH: BAE ABERTAWE a HYWEL DDA
Cydlynu Cenedlaethol
Ein stori hyd yn hyn...
Iechyd Cyhoeddus Cymru
OEDDECH CHI'N GWYBOD...
Pwysau gormodol yw un o'r heriau iechyd cyhoeddus mwyaf sy'n ein hwynebu
Mae 6 o bob 10 ohonom DROS BWYSAU
CYNNAR 2023
MAPIO SYSTEMAU
Beth sy'n achosi'r lefel o bwysau gormodol?
CYFRANOGOL
EBRILL 2024
y TÎM
ADEILADU'R SYLFEINI
Safbwyntiau Amrywiol
Adeiladu Partneriaeth
PEINTIO'R LLUN
TYMOR YR HYDREF 2024 - GWEITHDAI I GYTUNO AR Y FLAENORIAETH IS-SYSTEM GYDA BYRDDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS
cyfleoedd hamdden ar gyfer gweithgarwch corfforol
bwyd ar y fron
bwyd ysgol
fforddiadwyedd bwyd
Is-systemau Posib
gweithgarwch corfforol sy'n gysylltiedig ag ysgol
hysbysebu a marchnata bwyd
teithio llesol
argaeledd a bwyd sydd ddim yn iach
SUT YDYM AM I AMGYLCHEDD PWYSAU IACH EDRYCH YN 2050?
strydoedd bywiog
cymuned
beicio
rhandiroedd
cerdded
bysiau
FFORDDIADWY
ARGAELEDD
RHAGFYR 2024: CYTUNO AR FLAENORIAETH IS-SYSTEM...
MYNEDIAD at FWYD
HYD MAWRTH 2025 A THU HWNT...
camau nesaf
Archwilio Mynediad at fwyd...
a chytuno ar ddatrysiadau
ymglymiad cymunedol yn Llambed ac Aberteifi gyda Phrosiect Dewi
Rhwydwaith
Cyd-gynhyrchu
Cymru
Sefydlu RHWYDWAITH DYSGU
Dysgu ac Addasu
Pwysau Iach: Cymru Iach - Arweinyddiaeth a Galluogi - Newid - Deddf Lleiant
Offer a Dulliau Meddwl trwy Systemau - o'n gwmpas yn effeithio arnom
Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) - Pum Dull o Weithio - Hirdymor; Atal; Integreiddio; Cydweithio; Cynnwys - Mae beth sy'n digwydd

## Lansio Strategaeth Oed-gyfeillgar

Yn Hydref 2024 lansiwyd Strategaeth Oed-gyfeillgar Ceredigion a bydd hon yn llywio'r cydweithio ledled y Sir yn y dyfodol. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio'n sylweddol, mae partneriaid allweddol, dan arweiniad yr Awdurdod Lleol, wedi mynd ati i flaenoriaethu'r camau cydweithredol y bernir sydd eu hangen i fynd i'r afael mewn ffordd bositif ag anghenion y garfan hon yn y Sir.

Cafodd y gwaith hwn ei ystyried gan y grwpiau gweithredu 'seiliedig ar le' yn Aberteifi a Llanbed, ac mae holl aelodau BGC Ceredigion wedi cefnogi'r camau penodedig a amlinellir yn y Cynllun. Y nod yw sicrhau bod Ceredigion yn fan lle gall pobl o bob oed ffynnu, teimlo'n werthfawr, a chymryd rhan ym mywyd y gymuned.

***''Creu mannau lle mae pobl hŷn, cymunedau, polisïau, gwasanaethau, lleoliadau a strwythurau'n gweithio gyda'i gilydd i gynorthwyo a galluogi pawb i heneiddio'n dda."***

# 7. Digwyddiadau a Chodi Ymwybyddiaeth

Mae ymgysylltu â thrigolion yn allweddol ac mae'n cynyddu effaith bosib y Cynllun Llesiant Lleol.

Ystyrir marchnata ein gwaith a gwella cysylltiadau â'r gymuned yn brif flaenoriaethau.

## Digwyddiadau Codi Ymwybyddiaeth 2024/25

Gan roi blaenoriaeth i rannu negeseuon cyffredinol a chrynhoi adborth trigolion, yn ystod eleni mae'r BGC wedi cymryd rhan mewn nifer fawr o weithgareddau codi ymwybyddiaeth amrywiol, gyda phob un yn darparu mynediad at drigolion a phartneriaid ychwanegol sy'n rhan annatod o gymunedau lleol.

Ymhob cyfarfod o'r BGC mae yna eitem benodol ar yr agenda ar gyfer digwyddiadau ac ymgysylltu. Rhennir amserlen fyw o ddigwyddiadau a chyfleoedd sydd i ddod gyda'r Bwrdd. Trafodir cyfleoedd â phartneriaid ar gyfer cynrychiolaeth, cymryd rhan, ac ymgysylltiad yn y dyfodol. Mae copi cyfredol o'r amserlen ar wefan y BGC, ac anogir y cyhoedd i wneud awgrymiadau.

| Dyddiad y digwyddiad | Enw'r digwyddiad | Lleoliad y ddigwyddiad |
|---|---|---|
| 07.08.2024 | Diwrnod Hwyl RAY Ceredigion | Aberaeron |
| 22.08.2024 | Haf Hwyl Pentop | Aberaeron |
| 15.09.2024 | Ymweliad â Fferm Organig | Llanbed |
| 30.09.2024 | Lansio Strategaeth Gydol Oes | Aberaeron |
| 26.02.2025 | Sioe Llesiant Llanbed | Llanbed |

Mae'r BGC yn trafod adborth o'r digwyddiadau ac yn sicrhau eu bod yn cyrraedd y rhan fwyaf o grwpiau cymdeithasol a gwahanol oedrannau.

# 8. Cymorth Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru

Yn ystod 2024-25 parhaodd BGC Ceredigion i gael cefnogaeth arbenigol gan Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru. Darparwyd cymorth drwy Prosiect Dewi, sy'n cael ei ariannu drwy Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, sy'n darparu cymorth am y bedwaredd flwyddyn bellach.

Mae BGC Ceredigion a'i grwpiau cyflenwi wedi elwa'n uniongyrchol o gyfraniad, arbenigedd a chymorth cymdeithion yn Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru. Mae cymryd rhan uniongyrchol mewn cyfarfodydd a rhannu arfer gorau a phrofiad wedi helpu i dywys partneriaid y BGC wrth iddyn nhw fynd ati i ystyried penderfyniadau strategol a mentro ar gamau cyflenwi newydd.

Darparwyd cymorth hefyd i fentora mentoriaid lleol a mapio asedau cymunedol.

Yn ystod eleni, mae holl Gadeiryddion y grwpiau prosiect, wrth fynd i'r afael â Llesiant Aberteifi, Llanbed, Hinsawdd a Natur, a'r thema trawsbynciol Mynd i'r Afael â Thlodi, wedi galw am gymorth gan Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru wrth ystyried camau i wella ymgysylltiad cymunedol, mynd i'r afael â thlodi, a thaclo anghydraddoldebau.

Sefydlwyd Rhwydwaith Dysgu ar y Cyd i hyrwyddo cyd-gynhyrchu a chefnogi cyfranogiad gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Wrth i Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru ddechrau ar eu blwyddyn olaf, bydd BGC Ceredigion yn parhau i ymgysylltu â nhw oherwydd mi fyddant yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol:

**Dysgu ar y Cyd** – datblygu adnoddau penodol a hyfforddiant ymarferol i gefnogi dysgu hirdymor, a byddant yn cynnal eu Cyfres Cymryd Rhan yn yr Hydref a'r Gynhadledd Cyd-gynhyrchu Genedlaethol, i rannu dealltwriaeth a sbarduno deialog.
**Gwaddol** – Creu astudiaethau achos hygyrch ac adnewyddu'r Catalog Cyd-gynhyrchu i arddangos yr hyn sy'n gweithio.
**Dylanwadu** – Parhau i weithio â phartneriaid fel Llunio Lleoedd, Llywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael y gefnogaeth iawn.
**Cefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus** – Eu helpu i ddatblygu strategaethau cyd-gynhyrchu tu hwnt i oes y prosiect.
**Cynorthwyo gyda Newid Hinsawdd** - Cydweithio â BGC Sir Gaerfyrddin

Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru | Co-production Network for Wales

Yn 2026 bydd y BGC yn dechrau gweithio ar yr Asesiad o Lesiant Lleol nesaf (3ydd) mewn paratoad ar gyfer cynhyrchu'r Cynllun Llesiant Lleol nesaf yn 2028.

## Mae BGC Ceredigion wedi ymrwymo i weithio ar y cyd i wella Llesiant yng Ngheredigion, nawr ac yn y dyfodol.